Cyd-Bwyllgor Corfforedig
Gogledd Cymru
North Wales
Corporate Joint Committee

# Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

## Cwestiynau Cyffredin

(Draft)













# Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol

## Cwestiynau Cyffredin

### Cynnwys


Beth yw Cyd-bwyllgor Corfforedig (CJC)?2

Pwy yw Uchelgais Gogledd Cymru?2

Beth yw Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol?2

Pam ein bod angen Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol?3

Beth yw Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol?3

Beth yw Asesiad Llesiant Integredig?3

Beth yw Cynllun Monitro ac Arfarnu?4

Pwy sy'n cefnogi gweithrediad y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol?4

Pryd fydd y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cael ei gymeradwyo a phwy fydd yn gwneud hynny?5

Beth yw rôl yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth?5

Beth fydd yn digwydd unwaith y cymeradwyir y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol?5

Beth yw rôl Swyddogion Trafnidiaeth Arweiniol yr Awdurdod Lleol fel Grŵp Ymgynghorol?5

Sut alla i leisio fy marn?5

Pwy alla i siarad â nhw os oes gennyf gwestiynau pellach? 6

Ble alla i weld copi caled o'r dogfennau?6

A alla i fynychu digwyddiad wyneb yn wyneb?6

A alla i gael copi o'r dogfennau yn Gymraeg?6

A alla i gael copi o'r dogfennau mewn fformatau eraill?6

Beth yw'r camau nesaf ar ôl yr ymgynghoriad hwn?7

Beth sy’n digwydd i fy ngwybodaeth bersonol?7

## Beth yw Cyd-bwyllgor Corfforedig (CJC)?

Mae Cyd-bwyllgorau Corfforaethol (CJC) yn endidau llywodraeth leol corfforaethol rhanbarthol sy'n cynnwys Awdurdodau Lleol yn eu hardaloedd rhanbarthol.  Creodd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 y fframwaith ar gyfer sefydlu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig yng Nghymru ac fe'u sefydlwyd ar 1 Ebrill 2021.

Y pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig yng Nghymru yw:

- Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam)
- Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth (Ceredigion, Powys)
- Cyd-bwyllgor Corfforedig De-ddwyrain Cymru (Caerdydd, Sir Fynwy, Blaenau Gwent, Pen-y-bont, Caerffili, Merthyr Tudful, Casnewydd, Rhondda Cynon Taf, Torfaen, Bro Morgannwg)
- Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru (Sir Gâr, Castell-Nedd Port Talbot, Sir Benfro, Abertawe)

Mae gan Gyd-bwyllgorau Corfforedig bwerau, dyletswyddau, llywodraethiant a strwythurau gweinyddol tebyg i Awdurdodau Lleol yng Nghymru. Mae gofyn iddynt gydymffurfio â'r un dyletswyddau cyffredinol â sefydliadau'r sector cyhoeddus fel y Ddeddf Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Mesur y Gymraeg.

Mae ganddynt ddyletswydd statudol i gynhyrchu Cynllun Datblygu Strategol a Chynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Yn ogystal, mae ganddynt rym i wneud unrhyw beth i wella neu hybu lles economaidd rhanbarthol.

## Pwy yw Uchelgais Gogledd Cymru?

Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn gyd-bwyllgor a chorff sy'n gwneud penderfyniadau sy'n goruchwylio Cynllun Twf Gogledd Cymru, sy'n gytundeb a fydd yn cynhyrchu cyfanswm buddsoddiad o dros £1 biliwn i Ogledd Cymru er mwyn creu dros 4000 o swyddi newydd. Bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn cymryd cyfrifoldebau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd. Bydd Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd yn mabwysiadu enw a brand Uchelgais Gogledd Cymru.

## Beth yw Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol?

Mae ein Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft yn ddogfen strategol sy'n amlinellu'r weledigaeth hirdymor ar gyfer system trafnidiaeth y rhanbarth, yn cynnwys y nodau, yr amcanion a'r polisïau a'r blaenoriaethau ar gyfer gwella'r rhwydwaith a'r gwasanaethau trafnidiaeth.

Bydd y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol hwn yn ein helpu i ymdrin â materion trafnidiaeth lleol a rhanbarthol yn awr ac yn y dyfodol dros y 5 mlynedd nesaf (2025-2030) drwy ddarparu fframwaith ar gyfer penderfyniadau ar fuddsoddiad yn y dyfodol. Mae'n nodi sut y gall trafnidiaeth gefnogi'r gwaith o ddarparu Llwybr Newydd, strategaeth trafnidiaeth Llywodraeth Cymru, a chyfrannu at lwyddiant, adfywiad a datblygiad ein rhanbarth.

## Pam ein bod angen Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol?

Mae'r gofyn i awdurdodau lleol gynhyrchu Cynllun Trafnidiaeth wedi'i nodi yn Neddf Trafnidiaeth 2000, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006. Trosglwyddwyd y ddyletswydd hon i Gyd-bwyllgorau Corfforedig ar 30 Mehefin 2022, gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Felly, mae gan Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd ddyletswydd i gynhyrchu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (RTP) i ogledd Cymru.  Rhaid i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ddatblygu polisïau i awdurdodau lleol weithredu Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021. Rhaid i'r polisïau hyn gynnwys cyfleusterau a gwasanaethau trafnidiaeth lle mae:

- Angen cwrdd ag anghenion pobl sy'n byw neu'n gweithio yn y rhanbarth, sy'n ymweld neu sy'n teithio drwy'r rhanbarth;
- Angen ar gyfer cludo llwythi; a
- Chyfleusterau a gwasanaethau i gerddwyr.

Rhaid i Gynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol ystyried anghenion trafnidiaeth personau anabl (o fewn ystyr Deddf Cydraddoldeb 2010) a phersonau sy'n hŷn neu sydd â phroblemau symudedd, ac ystyried goresgyn rhwystrau yn fwy ehangach.

## Beth yw Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol?

Mae Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol (RTDP) drafft yn amlinellu'r camau penodol sydd eu hangen i weithredu'r amcanion a'r polisïau ehangach a nodir yn ein Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (RTP).

Mae ein Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol yn nodi'r ymyraethau y bydd ein hawdurdodau lleol yn bwrw ymlaen â nhw dros y 5 mlynedd nesaf. Mae'n cynnwys ein blaenoriaethau dros amser, gan ystyried costau, effeithiau a chyfraniadau tebygol i'n hamcanion rhanbarthol.

Mae'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol ar ffurf rhestr o gynlluniau sy'n cael ei rhestru yn nhrefn blaenoriaeth o ran yr effaith o gyflawni yn erbyn ein blaenoriaethau. Y rhain yw'r cynlluniau y mae awdurdodau trafnidiaeth lleol yn bwriadu buddsoddi ynddynt i gyflawni'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol.  Nid yw'n cynnwys cynlluniau 'cefnffyrdd' strategol, na phrosiectau rheilffyrdd, a fyddai'n cael eu darparu gan gyrff eraill fel Llywodraeth Cymru a Network Rail.

## Beth yw Arfarniad Llesiant Integredig?

Mae gofyn cael Asesiad Llesiant Integredig (IWBA) fel rhan o Ganllawiau Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG). Mae ein Hasesiad Llesiant Integredig yn dangos sut fydd ein polisïau yn cyfrannu at lesiant, gyda chefnogaeth asesiadau effaith sydd wedi cael eu gwneud i ystyried materion megis yr amgylchedd, iechyd, cydraddoldeb a bioamrywiaeth.

Nid dim ond ymarferiad 'ticio bocs' yw'r Asesiad Llesiant Integredig. Rhaid defnyddio'r wybodaeth yn yr IWBA i gynnwys buddion yn y dyluniad ac eithrio unrhyw effeithiau niweidiol posib o'r dyluniad. Rhaid i'r IWBA ddangos sut yr ymdriniwyd â llesiant a dylai adnabod yr effeithiau positif a negyddol a dangos sut mae unrhyw effeithiau negyddol wedi'u hosgoi neu eu lliniaru.

Dylai'r Asesiad Llesiant Integredig ymdrin â phedwar cwestiwn allweddol, yn seiliedig ar y pedair uchelgais yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru:

- Sut fydd y rhaglen neu'r prosiect yn elwa pobl a chymunedau? (cydraddoldeb, iechyd, diogelwch a hyder)
- Sut fydd hyn o fudd i'r amgylchedd? (lleihau allyriadau carbon, buddiol i fioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau a lleihau gwastraff)
- Sut fydd hyn o fudd i lefydd a'r economi? (creu lleoedd, arloesedd, cludo)
- Sut fydd hyn o fudd i ddiwylliant a'r iaith Gymraeg? (y celfyddydau a chwaraeon a'r amgylchedd hanesyddol)

Wrth helpu i ateb y cwestiynau hyn, mae'r Asesiad Llesiant Integredig yn cael ei gefnogi gan amrediad o asesiadau effaith, yn cynnwys rhai sy'n statudol, megis Asesiad Amgylcheddol Strategol.

## Beth yw Cynllun Monitro ac Arfarnu?

Rhaid i'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (RTP) gynnwys Cynllun Monitro a Gwerthuso sy'n dangos sut y bydd cynnydd yn rhanbarthol o ran cyflawni blaenoriaethau ac uchelgeisiau cenedlaethol Strategaeth Drafnidiaeth Cymru (WTS) yn cael ei fonitro, ei fesur a'u werthuso. Rhaid i hyn gynnwys cyfraniad y rhanbarth i dargedau datgarboneiddio a newid moddol cenedlaethol.

Mae ein Cynllun Monitro a Gwerthuso yn cynnwys cyfres o fesurau gyda gwybodaeth waelodlin ar gyfer pob un. Dylai'r mesurau fod yn seiliedig ar y fframwaith o fesurau a ddefnyddir yn yr Asesiad Llesiant Integredig a dylid eu diweddaru os oes angen, gan ddefnyddio Fframwaith Monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru ar gyfer anghenion rhanbarthol. Mae Trafnidiaeth Cymru wedi cyhoeddi data gwaelodlin ar gyfer Fframwaith Monitro WTS ac mae hwn yn cael ei adolygu a'i diweddaru gan Drafnidiaeth Cymru yn barhaus.

Rhaid i Gyd-bwyllgorau Corfforedig gyflwyno adroddiadau perfformio blynyddol ar Gynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol i Lywodraeth Cymru bob blwyddyn.

Bydd gwerthusiad cynhwysfawr yn cael ei baratoi ar ôl tair blynedd i asesu p'un a yw'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cyflawni ei ddeilliannau, yn darparu gwerth am arian a ph'un a oes unrhyw ganlyniadau na fwriadwyd. Bydd canlyniadau'r gwerthusiad cynhwysfawr hwn yn bwydo i mewn i'r RTP dilynol ar gyfer y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Cenedlaethol (NTDP) dilynol.

## Pwy sy'n cefnogi gweithrediad y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol?

Mae gan awdurdodau lleol rôl allweddol i'w chwarae o ran gweithredu'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am gyflawni'r cynlluniau sy'n cael eu hadnabod yn y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol.

Mae gweithrediad y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cael ei gefnogi gan Drafnidiaeth Cymru, a fydd yn gweithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu cynlluniau y mae awdurdodau lleol yn bwriadu eu cyflawni.

Hefyd, bydd Trafnidiaeth Cymru yn cefnogi cyflawniad ein dyheadau rheilffordd, ac yn gweithio gydag awdurdodau lleol i adnabod gwelliannau i'r rhwydwaith bws wrth i ni symud tuag at fasnachfreinio.

Bydd Llywodraeth Cymru ac Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru (NMWTRA) yn cefnogi cyflwyniad ein dyheadau rhwydwaith ffyrdd strategol, fel y cyrff sy'n gyfrifol am reoli, cynnal a chadw a gwella'r rhwydwaith ffyrdd strategol.

## Pryd fydd y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cael ei gymeradwyo a phwy fydd yn gwneud hynny?

Mae'r is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol yn gyfrifol am baratoi a datblygu'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, a'r Cyd-bwyllgor Corfforedig fydd yn gyfrifol am ei gymeradwyo ar ôl cyfnod o ymgynghori cyhoeddus a chyflwyniad i Lywodraeth Cymru. Yr amserlen ar gyfer cymeradwyo yw mis Gorffennaf 2025.

## Beth yw rôl yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth?

Mae aelodaeth yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol yn cynnwys arweinyddion portffolio trafnidiaeth y Weithrediaeth ym mhob Cyngor cyfansoddol. Mae cynrychiolwyr o Barc Cenedlaethol Eryri a Thrafnidiaeth Cymru wedi'u cyfethol ar yr is-bwyllgor.

Mae'r is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol yn gyfrifol am baratoi a datblygu'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, a'r Cyd-bwyllgor Corfforedig fydd yn gyfrifol am ei gymeradwyo ar ôl cyfnod o ymgynghori cyhoeddus a chyflwyniad i Lywodraeth Cymru.

## Beth fydd yn digwydd unwaith y cymeradwyir y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol?

Unwaith y bydd y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cael ei gymeradwyo, bydd yn siapio'r gwelliannau trafnidiaeth sy'n cael eu cyflwyno yng Ngogledd Cymru dros y pum mlynedd nesaf. Bydd grantiau ariannu gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau trafnidiaeth ddim ond ar gael ar gyfer cynlluniau sy'n cefnogi amcanion yr RTP. Disgwylir y bydd unrhyw welliannau trafnidiaeth a fydd yn cael eu cyflawni yng ngogledd Cymru yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol.

## Beth yw rôl Swyddogion Trafnidiaeth Arweiniol yr Awdurdod Lleol fel Grŵp Ymgynghorol?

Mae gan swyddogion o bob un o'r Cynghorau rôl hanfodol i ddatblygu'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drwy weithio gyda'u Haelodau, eu Hawdurdodau a'r is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol. Mae swyddogion yn cefnogi'r is-bwyllgor drwy gwrdd yn rheolaidd fel Grŵp Ymgynghorol i baratoi a datblygu polisïau a chynlluniau, sy'n bwydo i mewn i'r is-bwyllgor. Mae gan y swyddogion rôl arweiniol, ynghyd â'u Haelodau, i gefnogi a gweithredu’r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol.

## Sut alla i leisio fy marn?

Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn ceisio'ch barn ar Gynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol arfaethedig Gogledd Cymru a'i ddogfennau ategol, sy'n cynnwys cynllun monitro a gwerthuso, cynllun cyflawni ar gyfer cynlluniau awdurdodau lleol, ac arfarniad llesiant integredig.

Mae ein Cynllun drafft yn rhoi amlinelliad o'n polisïau a'n hymyraethau strategol ar gyfer y 5 mlynedd nesaf ar draws nifer o ddulliau trafnidiaeth, yn cynnwys rheilffyrdd, ffyrdd, bws, cerdded, beicio a chysylltedd digidol. Trwy ganolbwyntio ar integreiddio ac arloesi, ein nod yw darparu mwy o ddewisiadau teithio a gwell cysylltedd i breswylwyr ac ymwelwyr, gan leihau ein heffaith amgylcheddol ar yr un pryd.

Gallwch weld ein cynlluniau ac ymateb i'n hymgynghoriad drwy lenwi holiadur ar-lein, sydd ar gael yn ein hystafell arddangos rithwir yma: https://northwalesregionaltransportplan.virtual-engage.com/

Fel arall, gallwch e-bostio ymatebion i northwalesregionaltransportplan@arup.com.

Neu, ysgrifennwch atom a phostiwch gopïau argraffedig o'r holiadur at: FREEPOST UGC / ANW

Os hoffech siarad â ni am ein cynlluniau, gallwch hefyd ein ffonio ar: 01172 405 350

Gellir darparu copïau papur neu amgen i chi ar gais drwy anfon e-bost atom neu adael neges i ni ar ein gwasanaeth ffôn (manylion uchod).

Mae'r ymgynghoriad yn rhedeg o 20 Ionawr 2025 am 12 wythnos.  Anfonwch eich ymateb atom erbyn 23:59pm ar 14 Ebrill 2025.

Byddwn yn ystyried yr holl adborth a gawn yn ofalus, a fydd yn cael ei ddefnyddio i ddiweddaru a chwblhau ein cynlluniau. Ein nod yw cyhoeddi a mabwysiadu ein Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn Haf 2025.

## Pwy alla i siarad â hwy os oes gennyf gwestiynau pellach?

Gallwch gysylltu â'r tîm prosiect drwy anfon e-bost at: northwalesregionaltransportplan@arup.com neu ffonio 01172 405 350.

## Ble alla i weld copi caled o'r dogfennau?

Gallwch weld copi papur o'n Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol ym mwyafrif y llyfrgelloedd, canolfannau cymunedol, colegau a phrifysgolion ledled y Gogledd. Os nad ydych yn siŵr, cysylltwch â ni i gadarnhau cyn i chi ddod i ymweld â ni drwy anfon e-bost at northwalesregionaltransportplan@arup.com neu ffonio 01172 405 350.

## A alla i fynychu digwyddiad wyneb yn wyneb?

Gall awdurdodau lleol drefnu digwyddiadau lleol i helpu pobl i drafod y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol ac annog cyfranogiad yn yr ymgynghoriad. Cysylltwch â'ch awdurdod lleol os ydych chi am wybod mwy. Hefyd, gellir hysbysebu manylion unrhyw ddigwyddiadau awdurdodau lleol ar wefan Uchelgais Gogledd Cymru yn ystod y cyfnod ymgynghori.

## A alla i gael copi o'r dogfennau yn Gymraeg?

Mae dogfennau ar gael yn y Gymraeg a Saesneg. Gellir gwneud cais am gopïau caled drwy gysylltu â'r tîm prosiect yn northwalesregionaltransportplan@arup.com neu 01172 405 350.

## A alla i gael copi o'r dogfennau mewn fformatau eraill?

Gellir gwneud cais am fformatau amgen drwy gysylltu â'r tîm prosiect yn northwalesregionaltransportplan@arup.com neu 01172 405 350.

## Beth yw'r camau nesaf ar ôl yr ymgynghoriad hwn?

Byddwn yn cynhyrchu adroddiad ymgynghori i ystyried yr adborth o'r ymgynghoriad, ac yn egluro sut y mae wedi helpu i siapio ein cynlluniau. Bydd ein dogfennau terfynol yn cael eu hanfon i Lywodraeth Cymru i gael eu cymeradwyo yn ystod y gwanwyn 2025. Mae'n debygol y bydd y dogfennau a gymeradwyir yn cael eu cyhoeddi yn yr haf 2025.

## Beth sy'n digwydd i fy ngwybodaeth bersonol?

Mae Arup yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar Gynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ar ran Uchelgais Gogledd Cymru. Gellir gweld polisi data Uchelgais Gogledd Cymru yma: Diogelu data (llyw.cymru)[1].

Mae Arup yn gweithredu fel Prosesydd Data ar ran Uchelgais Gogledd Cymru. Ar ddiwedd yr ymgynghoriad mae'r holl wybodaeth bersonol yn cael ei throsglwyddo i Uchelgais Gogledd Cymru. Nid yw gwybodaeth bersonol yn cael ei chadw y tu hwnt i'r cyfnod hwn. Pan fyddwn yn storio eich gwybodaeth dros dro, caiff ei storio'n ddiogel yn ein hisadeiledd cwmwl sydd wedi'i leoli yn yr UE.

Bydd eich adborth gan gynnwys unrhyw sylwadau yn ddienw ac yn cael eu defnyddio i'n helpu i gwblhau ein cynigion. Gellir llunio cofnod o sylwadau y gellid eu cyhoeddi. Ni ellir priodoli sylwadau i unrhyw unigolyn neu sefydliad os bydd hyn yn digwydd.

[1] https://www.gwynedd.llyw.cymru/en/Council/Data-Protection-and-Freedom-of-Information/Data-protection-.aspx